# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Ionawr 2024

Amser: 09.30 - 13.12

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13833

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Rhun ap Iorwerth AS (yn lle Heledd Fychan AS)<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Vikki Howells AS (yn lle Buffy Williams AS) |
| Tystion: | Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant<br>Hywel Jones, Llywodraeth Cymru<br>Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Irfon Rees, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Alex Slade, Llywodraeth Cymru<br>Chris Parry, National Association of Head Teachers (NAHT) Cymru<br>Laura Doel, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru<br>Catherine Falcus, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)<br>Mary van den Heuvel, National Education Union (NEU)<br>Urtha Felda, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)<br>Ioan Rhys Jones, UCAC |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS a Heledd Fychan AS. Dirprwyodd Vikki Howells AS ar ran Buffy ar gyfer eitemau 1 i 4 a dirprwyodd Rhun ap Iorwerth AS ar ran Heledd ar gyfer eitemau 1 i 5.

1.3 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Rhun ap Iorwerth AS ei fod yn Aelod dynodedig o ran y cytundeb cydweithredu.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae fframwaith cynllunio'r GIG yn cefnogi clustnodi cyllid ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ddarparu'r canlynol:

- Cofnodion o gyfarfodydd Bwrdd Cyflawni'r Dull Ysgol Gyfan.

- Rhagor o wybodaeth am y gwaith modelu y mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei wneud ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl, pan fydd ar gael.

- Rhagor o wybodaeth am werthusiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o Raglen Atal Diabetes Cymru Gyfan ar gyfer prosiectau peilot plant a theuluoedd.

2.4 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu nodyn ar sut y mae'r dyraniad o £19 miliwn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau plant yn cael ei ddefnyddio.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4 ac 8 ar agenda'r cyfarfod hwn.

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn flaenorol.

## 5 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan undebau prifathrawon.

## 6 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 5

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan undebau athrawon.

6.2 Datganodd Mary van den Heuvel fuddiant fel aelod o Bwyllgor Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

## 7 Papurau i'w nodi

7.1 Cafodd y papurau eu nodi.

7.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gael eglurhad ynghylch rhai meysydd ym mhapur i'w nodi 17.

## 8 Bil Preswyl Awyr Agored (Cymru) – trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.